# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Teams**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**(Ar 8 Chwefror 2021 derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu ar Gyfrifon 2019-20 - Llywodraeth Cymru Trafod yr adroddiad drafft

(09.30 - 11.30) (Tudalennau 1 - 76)

PAC(5)-06-21 Papur 1 - Adroddiad drafft

PAC(5)-06-21 Papur 2 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (7 Ionawr 2021)

PAC(5)-06-21 Papur 3 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (4 Chwefror 2021)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7 Ionawr 2021

Annwyl Mr Ramsay,

**PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS 23 TACHWEDD 2020**

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Tachwedd 2020, cytunais ar nifer o bwyntiau gweithredu mewn perthynas â darparu rhagor o wybodaeth fel yr amlinellir isod.

1. **Anfon copi o'r papur asesu technegol a baratowyd ar gyfer Trysorlys EM, ac wedi hynny i'w ystyried gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â grantiau dan amgylchiadau eithriadol.**

- Darparodd Llywodraeth Cymru gopïau o asesiad cyfrifyddu technegol Llywodraeth Cymru o'r grantiau a phapur Trysorlys EM i Fwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol y DU ar waith cyfrifyddu rhoddwyr grantiau ar 25 Tachwedd 2020.

2. **Rhoi trosolwg o nifer a natur unrhyw gontractau sy'n bodoli, os o gwbl, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19.**

- Rydym wedi chwilio drwy ein cofnodion am unrhyw gontractau gwerth mwy na £25,000 sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer darparu

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gwasanaethau COVID-19. Drwy'r gwaith hwn, daethpwyd i'r casgliad nad oes contractau o'r fath yn bodoli.

- Lle y caiff gwasanaethau o'r fath eu darparu, caiff y berthynas â Llywodraeth y DU ei llywodraethu drwy gytundebau rhynglywodraethol, megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth neu brotocol y pedair gwlad ar gyfer cyfarpar diogelu personol a deddfwriaeth.

3. **Cadarnhau a oedd contract ar waith gyda Labordai Goleudy ac, os felly, a oedd yn cynnwys cymalau ar gyfer amseroedd cyflawni, ac a fyddai perfformiad gwael wedi bod yn gyfystyr â thorri'r contract.**

- Nid oes perthynas gytundebol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyfleuster Labordy Goleudy penodol yn Imperial Park 5, sef warws sy'n eiddo i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Natur y cytundeb yno yw prydles landlord-tenant rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i gontract â'r busnes gwyddorau bywyd rhyngwladol PerkinElmer i weithredu labordy ar ei safle ar brydles.

- Mae trefniadau rhwng llywodraethau ar faterion o'r math hwn yn cael eu cynnal drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau anffurfiol neu gytundebol eraill. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydsynio i Lywodraeth y DU ddarparu gwasanaeth mewn maes cymhwysedd datganoledig

**Ar gyfer Ap COVID-19 y GIG** mae gennym ddwy ddogfen allweddol sy'n adlewyrchu'r trefniant hwn.

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi egwyddorion cyffredinol (yn benodol, ap a gaiff ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ar ran Cymru a Lloegr ydyw, yn hytrach nag ap a gaiff ei ddarparu i Gymru gan Loegr) a threfniant bwrdd llywodraethu sy'n cwrdd bob pythefnos i drafod materion polisi a chydweithio.

- Cytundeb Adran 83 lle y bydd Gweinidogion Cymru yn cydsynio i Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU ddarparu gwasanaethau (ap iechyd) mewn maes polisi datganoledig.



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Hefyd, rydym wedi cyfrannu at Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n nodi rhai paramedrau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ap a'r ffordd y mae'n trin data a phreifatrwydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar 'y gallu i ryngweithredu' rhwng gwahanol apiau ledled y DU.

**4. Cadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru gontract neu gytundeb ysgrifenedig arall gyda Llywodraeth y DU ar gyfer caffael a dosbarthu brechlyn COVID-19.**

- Mae Llywodraeth y DU yn arwain y gwaith o ariannu a chaffael brechlynnau ar gyfer y DU drwy'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae trefniant ar waith rhwng BEIS a Gweinidogion Cymru o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i BEIS gaffael nifer o frechlynnau COVID-19 ar ran Gweinidogion Cymru.

- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda BEIS ar gyfer dosbarthu brechlyn COVID-19 Pfizer/BioNTech yn uniongyrchol i safleoedd y cytunwyd arnynt yng Nghymru. Dosbarthu'r brechlyn hwn yn uniongyrchol i Gymru a ffefrir er mwyn goresgyn yr heriau a'r cyfyngiadau logistaidd sy'n gysylltiedig â'i storio a'i gludo.

**5. Rhoi gwybodaeth ychwanegol am amseriad disgwyliedig derbyniadau rhaglenni'r UE.**

Ceir gwybodaeth ychwanegol yn Atodiad A

**6. Egluro'r sail resymegol dros y ffordd y mae model Adran Addysg Llywodraeth y DU, a ddefnyddir i wneud gwaith cyfrifo ar gyfer dileu benthyciadau i fyfyrwyr, wedi cael ei addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru.**

- Mae Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru yn gwneud nifer o addasiadau i fodel Llwybr Enillion Stocastig (StEP) Adran Addysg Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio yng Nghymru. Mae'r addasiadau hyn yn bennaf seiliedig ar newidiadau yn y data a fewnbynnir, a'r pwysicaf o'r rhain yw:

  - **Setiau data benthycwyr:** Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio setiau data benthycwyr mewn perthynas â benthycwyr sy'n hanu o Gymru a rhagolygon o niferoedd myfyrwyr yng Nghymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- **Uchafsymiau benthyciadau ("capiau ar fenthyciadau"):** Wrth ddefnyddio model StEP yn Llywodraeth Cymru, daw uchafsymiau'r benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd y mae gan fenthycwyr benthyciadau i fyfyrwyr hawl i'w cael yng Nghymru o Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- **Ffi canslo rhannol:** Er mwyn rhoi cyfrif am y polisi "Canslo Rhannol" mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr yng Nghymru (polisi nad yw ar waith yn Lloegr), mae datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffi ychwanegol a godir ar ben y ffioedd stoc a'r ffioedd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau o fodel StEP.

- Er bod modd newid data eraill, fel trothwyon ad-dalu, telerau benthyciadau ac ati, mae'r polisïau yng Nghymru yr un peth â'r polisïau yn Lloegr ar y cyfan. Felly, nid oes angen newid fersiwn Adran Addysg Llywodraeth y DU o fodel StEP.

- Yn yr un modd, un set bwysig o fewnbynnau o fodel StEP yw'r rhagolygon diweddaraf o benderfynyddion economaidd a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae'r Is-adran Addysg Uwch yn defnyddio'r un fersiwn o benderfynyddion economaidd â'r un a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU wrth ddefnyddio model StEP ar gyfer Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio rhagolygon ar gyfer y DU gyfan ac nad oes rhagolygon economaidd swyddogol penodol i Gymru ar gael a fyddai'n ddewis amgen addas.

- Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad B

**7. Cadarnhau faint o log oedd yn daladwy ar y ffi warant ynghyd â'r costau cyfreithiol cysylltiedig mewn perthynas â dileu prosiect Cylchffordd Cymru.**

- Y llog oedd £7.371m a'r ffioedd cyfreithiol oedd £0.204m, gan roi cyfanswm o £7.575m. Mae'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y golled o £14.909m a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2019-20.

**8. Darparu tabl yn nodi'r swm a dalwyd am dir ac adeiladau, a'r swm y cawsant eu gwerthu amdano wedi hynny, yn dilyn y cyhoeddiad na fyddai cynllun coridor yr M4 yn mynd yn ei flaen. Bydd y pris prynu hefyd yn dangos y pris malltod a'r gwir brisiad.**

Ceir tabl yn Atodiad C

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, rhowch wybod i mi.




**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad A**

## Derbyniadau Cyllid gan yr UE

Mae cyfrifon Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r incwm a gydnabyddir mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol mewn perthynas â gweithrediadau a ariennir gan yr UE. Mae swm yr incwm a gydnabyddir yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- **Faint o wariant a fu ym mhob prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol** – bydd prosiectau a ariennir gan yr UE fel arfer yn para tair blynedd neu fwy. Gall y gwariant arfaethedig amrywio mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol, a hynny'n fwriadol – byddai'r gwariant arfaethedig ar gyfer prosiect ffyrdd yn dra gwahanol i'r gwariant arfaethedig ar gyfer Cymorth i BBaChau, er enghraifft – ac oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth pob gweithrediad.

- **Yr angen am grant** – Yn achos gweithrediadau sy'n para nifer o flynyddoedd, ni fydd symiau rheolaidd o arian cyfatebol domestig o reidrwydd yn cael eu clustnodi ar eu cyfer ym mhob blwyddyn ariannol, ac mae'n bosibl na fydd y symiau o arian cyfatebol a fydd ar gael mewn gwirionedd rai blynyddoedd ar ôl i unrhyw brosiect penodol ddechrau yr un faint ag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae WEFO yn cydnabod hyn a, lle y bo'n briodol a thrwy fonitro prosiectau'n agos, mae'n cytuno ar symiau hyblyg o gyllid grant yn ôl yr hyn sydd ei angen ar y gweithrediad. Fel arfer, bydd y trefniadau hyn yn pwysoli'r grant gan yr UE tuag at y cyfnodau diweddarach, prysurach yn oes y gweithrediad, ond weithiau bydd yn pwysoli'r grant tuag at ddechrau'r gweithrediad. Un o gryfderau cronfeydd yr UE yw bod eu cyfnod cyllido amlflwydd wedi cynnig y sefydlogrwydd i alluogi'r math hwn o hyblygrwydd, ac mae WEFO yn agored i ystyried cynigion rhesymol ar gyfer cynlluniau diwygiedig os bydd amgylchiadau'n newid.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- **Nifer y gweithrediadau a phartneriaid cyflawni –** Ar hyn o bryd, mae 257 o weithrediadau cymeradwy yn rhan o raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), a Llywodraeth Cymru yw prif fuddiolwr tua hanner y gweithrediadau hynny. Nid cyflawni'r gweithrediadau hyn ei hun yw rôl Llywodraeth Cymru ond, yn hytrach, (a) cydgysylltu'r gwaith o'u cyflawni drwy ystod o bartneriaid cyflawni gan gynnwys y sector preifat, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, y trydydd sector a llywodraeth leol; (b) darparu'r adnoddau a'r arbenigedd i reoli'r prosiectau gan gynnwys y gofynion cydymffurfio; ac (c), ysgwyddo a rheoli risgiau cyllido a chydymffurfio mewn achosion lle na allai'r gweithrediad fynd yn ei flaen heb gymorth o'r fath.Felly, mae adrannau Llywodraeth Cymru sy'n arwain gweithrediadau yn dibynnu'n helaeth ar gannoedd o bartneriaid cyflawni, y mae gan bob un ei bwysau a'i gyfleoedd ei hun, i gyflawni'r gweithrediadau, cyflwyno hawliadau a chadarnhau bod tystiolaeth archwiliadwy o wariant a chyflawni ar gael i ategu'r hawliadau hynny, a hynny oll cyn y gallant gyflwyno hawliad i WEFO.

- **Cydymffurfiaeth** – Os na fydd gan yr adran arweiniol o fewn Llywodraeth Cymru, WEFO na'r Awdurdod Archwilio dystiolaeth briodol i ategu hawliad, neu os bydd pryderon neu ddadleuon ynghylch tystiolaeth o'r fath, efallai na fydd yn briodol cydnabod incwm perthnasol nes i'r ymholiadau gael eu datrys.

Mae derbyniadau gan y Comisiwn Ewropeaidd yn fater cysylltiedig iawn wrth gwrs, ond mae materion ychwanegol yn effeithio ar y camau rhwng yr adeg pan fydd WEFO yn talu buddiolwyr a phan ddaw'r arian i law gan y Comisiwn, sy'n peri rhagor o ansicrwydd ynglŷn ag amseriad derbyniadau.Mae'n bwysig cofio nad oes gan Gymru hawl ddiamod i gael y cyllid a glustnodwyd i Gymru yn Rhaglenni Gweithredol 2014-2020, y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn ôl yn 2013. Dim ond pan fydd yn hyderus bod tystiolaeth archwiliadwy ar gael o wariant cymwys a dalwyd a'r allbynnau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglenni Gweithredol hynny y gall WEFO fynd ati i hawlio'r cyllid hwnnw.Ymhlith y materion ychwanegol hynny mae:

- **Buddiolwyr nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru –** Fel y nodir uchod, mae'r rhain yn cyfrif am tua hanner y rhaglenni presennol.Mae pob un ohonynt yn wynebu'r materion uchod i raddau amrywiol, ac mae pob un ohonynt yn cyflwyno eu pecynnau eu hunain o ansicrwydd ynglŷn â gwerth ac amseriad hawliadau ac incwm o'r UE.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- **Amseriad hawliadau i WEFO** – Dylai hawliadau i WEFO gael eu gwneud bob chwarter yn y rhan fwyaf o achosion, a phob chwe mis mewn rhai achosion.Nid yw pob buddiolwr yn gwneud hawliadau'n brydlon, ac mae'n gyffredin i chwarteri gael eu colli, gyda'r gwariant yn cael ei grynhoi mewn hawliadau dilynol.

- **Sicrwydd WEFO** – Rhaid i'r Awdurdod Ardystio o fewn WEFO ardystio i'r Comisiwn Ewropeaidd fod popeth ym mhob hawliad yn gost briodol ar gyllideb yr UE.Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gwaith o brofi pob hawliad a delir gan WEFO ac a gaiff ei gynnwys yn yr hawliad i'r Comisiwn fod wedi'i gwblhau, gyda phob ymholiad wedi'i ddatrys cyn i'r gwariant perthnasol allu cael ei gynnwys. Os bydd oedi cyn i'r gwaith profi gael ei gwblhau am unrhyw reswm, dim ond mewn hawliadau diweddarach a gyflwynir i'r Comisiwn y caiff y gwariant hwnnw ei gynnwys, er bod yr hawliad wedi cael ei dalu gan WEFO. (Caiff hawliadau buddiolwyr eu talu ar ôl adolygiad cychwynnol, ond ni fydd oedi yn ystod y gwaith profi er mwyn lleihau'r pwysau ar gyfalaf gweithio buddiolwyr.)

- **Archwilio –** Mae'r pwynt hwn yn debyg i'r un uchod.Os bydd achosion amlwg o afreoleidd-dra yn llithro drwy fesurau rheoli WEFO ac yn cael eu darganfod gan yr Awdurdod Archwilio, yna, unwaith eto, ni chaiff y gwariant perthnasol ei gynnwys mewn hawliadau i'r Comisiwn nes bod yr ymholiadau wedi'u datrys.

- **Prosesau mewnol y Comisiwn Ewropeaidd** – Caiff hawliadau eu talu'n brydlon ar y cyfan, ond gall fod oedi o ganlyniad i ymholiadau technegol ar un elfen yn unig o'r hawliad, a hynny am flynyddoedd weithiau.O bryd i'w gilydd yn y gorffennol, bu oedi cyn talu hawliadau pan oedd gan y Comisiwn broblemau rheoli trysorlys dros dro.

- **Cyfraddau cyfnewid** – Wrth gwrs, gall cyfradd gyfnewid Ewro/Sterling newid yn sylweddol rhwng yr adeg pan fydd buddiolwr yn gwneud taliad (mewn Sterling) a'r diwrnod pan fydd WEFO yn cael y cyllid cysylltiedig gan yr UE (wedi'i hawlio a'i dalu gan y Comisiwn mewn Ewro).Mae wedi bod yn arbennig o anodd rhagweld hyn yn y rhaglen hon; mae'r gyfradd gyfnewid wedi amrywio rhwng €1.44 ac €1.07 dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ansicrwydd ynghylch gwerth ac amseriad derbyniadau yn golygu bod ymddiogelu ac opsiynau yn atebion anymarferol; nid ydym yn ymwybodol o unrhyw Awdurdod Rheoli (megis WEFO) yn unrhyw le y tu allan i Ardal yr Ewro sydd â threfniadau ymddiogelu ar waith ar gyfer rhaglenni tebyg i'n rhai ni.

Gan ddychwelyd at y cynnig cyllidebol, dyna'n union yw cyllid Ewropeaidd – nid yw'n deillio o'r Trysorlys. Ni fyddai wedi'i gynnwys yn y cynnig cyllidebol, ar wahân i'r


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gofyniad am ddarpariaeth gyfreithiol i WEFO gael cyllid gan yr UE a thalu buddiolwyr o gyfrifon banc Llywodraeth Cymru (mae WEFO yn weithredol annibynnol ar Weinidogion Cymru, ond mae'n dal yn rhan o endid cyfreithiol Llywodraeth Cymru).Amcangyfrif yw'r symiau yn y cynnig cyllidebol sydd, o ystyried yr holl ansicrwydd a amlinellir uchod, yn weithredol ddigonol i roi darpariaeth gyfreithiol heb ddiwygiadau niferus, heb fod yn swm camarweiniol o fawr nad yw'n gysylltiedig â disgwyliadau gwirioneddol, tebygol na chredadwy.

Felly, ni ddylid ystyried mai targed yw'r ffigur yn y cynnig cyllidebol ar gyfer derbyniadau o'r UE, ac ni ddylid pryderu os bydd derbyniadau gwirioneddol yn ystod y flwyddyn ariannol yn llai na'r ffigur hwnnw.A dweud y gwir, mae'r rhaglenni'n perfformio'n dda yn ôl meincnodau cyfartalog y DU a'r UE ar y cyfan.Mae'r holl dargedau gwariant blynyddol wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf (blwyddyn galendr 2021) yn barod, ac mae'r tabl yn dangos canran bresennol derbyniadau o'r UE yn erbyn gwerthoedd y Rhaglenni:

| | Cymru | Y DU | Yr UE |
|---|---|---|---|
| ERDF | 42.0% | 39.9% | 41.1% |
| ESF | 53.4% | 34.4% | 42.6% |

Caiff adroddiadau ar berfformiad rhaglenni eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni annibynnol, ac mae papurau'r Pwyllgor i'w gweld ar wefan WEFO os bydd angen rhagor o wybodaeth (https://llyw.cymru/pwyllgor-monitro-rhaglenni-cymru).

Hoffai WEFO achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'w phartneriaid cyflawni yn Llywodraeth Cymru a ledled Cymru, gan fod cynnal y perfformiad hwn drwy'r flwyddyn bresennol wedi bod yn her ddifrifol, wrth gwrs, ac efallai fod y nodyn hwn wedi cyfleu i ba raddau y mae'r broses o gyflawni rhaglenni'n llwyddiannus yn ymdrech ar y cyd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad B**

***Gwybodaeth gefndir – model StEP Adran Addysg Llywodraeth y DU***

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU yn cynnal ac yn datblygu model ystadegol (sef y model Llwybr Enillion Stocastig – *Stochastic Earnings Path* – StEP) a ddefnyddir i amcangyfrif y gost ariannol i'r Llywodraeth yn sgil benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ddibynnol ar incwm, drwy ragamcanu'r ad-daliadau y mae'r Adran yn disgwyl eu cael am ei gwariant ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

Model micro-efelychu yw model StEP. Mae'n rhagamcanu'r ad-daliadau benthyciadau i fyfyrwyr drwy amcangyfrif enillion benthycwyr unigol benthyciadau i fyfyrwyr yn y dyfodol, ac yn cymhwyso'r polisi ad-dalu benthyciadau at bob benthyciwr, cyn cydgrynhoi'r canlyniadau i amcangyfrif cyfansymiau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Ar gyfer pob benthyciwr, mae'n rhagfynegi ei enillion y flwyddyn nesaf, a phan gaiff hyn ei ailadrodd caiff llwybr enillion ei lunio. Os bydd gwybodaeth hanesyddol am enillion ar gael, bydd y model yn ei defnyddio. Mae rhagfynegiadau enillion yn seiliedig ar ddata gweinyddol gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys: lefel astudio'r benthyciwr; grŵp darparwyr addysg uwch; grŵp pwnc; rhywedd; oedran; blynyddoedd ers y Dyddiad Ad-dalu Statudol; a hyd at dair blynedd o hanes enillion a chyflogaeth gwirioneddol, lle y bo ar gael. Mae hyn yn galluogi'r model i gofnodi newidiadau unigol mewn enillion drwy gydol oes weithio'r benthyciwr.

Ar ôl i enillion benthyciwr gael eu rhagamcanu, caiff paramedrau perthnasol y polisi benthyciadau i fyfyrwyr eu cymhwyso er mwyn cyfrifo ei ad-daliadau, llog a balansau benthyciad fesul blwyddyn drwy gydol ei gyfnod ad-dalu, neu tan y bydd wedi gorffen ad-dalu ei fenthyciad. Gwneir addasiadau pellach i ad-daliadau rhai benthycwyr i

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ddarparu ar gyfer incwm buddsoddi, ad-daliadau gwirfoddol, ad-daliadau tramor, ad-daliadau debyd uniongyrchol, talu symiau anghywir, a dileu benthyciadau. Wedyn, caiff y ffrwd o ad-daliadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ei defnyddio i gyfrifo'r ffi stoc a'r ffi Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau, sy'n ymddangos yn natganiadau ariannol Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Mae'r Adran Addysg yn defnyddio model StEP i ragamcanu ad-daliadau ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr ac sy'n astudio yn y DU a myfyrwyr sy'n hanu o'r UE ac sy'n astudio yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys benthycwyr sy'n astudio cyrsiau gradd amser llawn a rhan-amser, a'r rhai sy'n astudio cyrsiau gradd Meistr neu ddoethurol ôl-raddedig. Mae data gweinyddol gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar nodweddion benthycwyr, a ddisgrifir uchod, a balansau a thrafodion benthyciadau i fyfyrwyr, ar gael ar gyfer pob math o fenthyciwr sydd o fewn cwmpas model StEP.

***Defnydd Llywodraeth Cymru o fodel StEP***

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU yn rhoi model StEP, a'i ddiweddariadau dilynol, i Lywodraeth Cymru (yr Is-adran Addysg Uwch) sy'n cael ei addasu i ragamcanu ad-daliadau ar gyfer myfyrwyr sy'n henu o Gymru ac sy'n astudio yn y DU a myfyrwyr sy'n hanu o'r UE ac sy'n astudio yng Nghymru. Mae'r Is-adran yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i fodel StEP (newidiadau i'w fewnbynnau yn bennaf) er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio yng Nghymru, a chaiff y pwysicaf o'u plith eu disgrifio isod.

- Setiau data benthycwyr: Tra bo'r setiau data benthycwyr unigol a fewnbynnir gan yr Adran Addysg yn deillio o ddata'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar fenthycwyr benthyciadau i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr a rhagolygon o niferoedd myfyrwyr yn Lloegr, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio setiau data benthycwyr o ddata'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar fenthycwyr sy'n hanu o Gymru a rhagolygon o niferoedd myfyrwyr yng Nghymru. Mae data gweinyddol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (fel y disgrifir uchod) yn union yr un mor gyfoethog ar gyfer benthycwyr sy'n henu o Gymru â benthycwyr sy'n hanu o Loegr, felly gellir defnyddio model StEP yn yr un ffordd gan fewnbynnu'r naill set ddata neu'r llall.

- Uchafsymiau benthyciadau ("capiau ar fenthyciadau"): Wrth ddefnyddio model StEP yn Llywodraeth Cymru, daw uchafsymiau'r benthyciadau cynhaliaeth a ffioedd y mae gan fenthycwyr benthyciadau i fyfyrwyr hawl i'w cael yng Nghymru o Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru: Memorandwm Ariannol a gaiff ei gyhoeddi bob

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

blwyddyn gan Lywodraeth Cymru.[1] Gall y capiau ar fenthyciadau yng Nghymru fod yn wahanol i'r capiau ar fenthyciadau yn Lloegr.

- Ffi canslo rhannol: Er mwyn rhoi cyfrif am y polisi “Canslo Rhannol” mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr yng Nghymru (polisi nad yw ar waith yn Lloegr), mae datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffi ychwanegol a godir ar ben y ffi stoc a'r ffi Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau o fodel StEP.

Ymhlith y mewnbynnau polisi ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr eraill i fodel StEP mae: y trothwyon ad-dalu; y ganran o incwm gros myfyriwr graddedig uwchlaw'r trothwy ad-dalu a ddidynnir ar ffurf ad-daliadau benthyciad; a hyd cyfnod y benthyciad (a elwir hefyd yn gyfnod dileu). Caiff y mewnbynnau polisi hyn eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff y mewnbynnau cywir eu defnyddio i adlewyrchu polisïau Cymru ond, ar y cyfan, mae'r polisïau penodol hyn yng Nghymru yr un peth â'r polisïau yn Lloegr – felly, fel arfer, ni fydd angen gwneud unrhyw newidiadau i fersiwn yr Adran Addysg o fodel StEP.

Yn yr un modd, un set bwysig o fewnbynnau o fodel StEP yw'r set ddiweddaraf o ragolygon o benderfynyddion economaidd a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Yn dilyn pob diweddariad i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn fel arfer, yn unol â chyhoeddi *Economic and Fiscal Outlook* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol), bydd Adran Addysg Llywodraeth y DU yn rhoi fersiwn o'r penderfynyddion economaidd wedi'u diweddaru i Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru sy'n addas i'w defnyddio o fewn model StEP. Mae'r Is-adran Addysg Uwch yn defnyddio'r un fersiwn o benderfynyddion economaidd â'r un a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU wrth ddefnyddio model StEP ar gyfer Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio rhagolygon ar gyfer y DU gyfan ac nad oes rhagolygon economaidd swyddogol penodol i Gymru ar gael a fyddai'n ddewis amgen addas. Bydd diweddaru model StEP â rhagolygon newydd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bob amser yn cael effaith ar allbynnau model StEP.

***Sicrwydd model StEP***

[1] Mae'r fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd, sy'n dangos cyfraddau cymorth myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, ar gael drwy ddilyn y ddolen isod. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cyfraddau-cymorth-myfyrwyr-ar-gyfer-blwyddyn-academaidd-2020-21-memorandwm-ariannol.pdf

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Pan fydd yn anfon diweddariad i fodel StEP, bydd Adran Addysg Llywodraeth y DU yn rhoi dogfennau sicrwydd i Lywodraeth Cymru yn nodi bod y model yn addas i'r diben. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn asesu model yr Adran Addysg a'i allbynnau bob blwyddyn, a bydd byrddau modelau mewnol a strwythur llywodraethu cyllid myfyrwyr yr Adran Addysg yn craffu arnynt hefyd.

Pan gaiff model StEP ei ddefnyddio o fewn Llywodraeth Cymru, caiff yr holl addasiadau a wneir i fodel gwreiddiol yr Adran Addysg (fel y disgrifir uchod) eu cofnodi'n unigol. Bydd y cofnod o'r newidiadau, a'r allbynnau a ddaw o'r model o ganlyniad i hynny, yn destun proses adolygu a sicrhau ansawdd gan o leiaf dri aelod o staff o fewn yr Is-adran Addysg Uwch (y mae'n rhaid i un ohonynt fod ar lefel G7 neu uwch er mwyn cymeradwyo'r broses) cyn i'r allbynnau gael eu defnyddio yn unrhyw rai o ffurflenni ariannol neu ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru.

Caiff fersiwn Llywodraeth Cymru o fodel StEP (hynny yw, gan gynnwys yr addasiadau a wneir i fersiwn wreiddiol yr Adran Addysg) a'i allbynnau eu hasesu gan Archwilio Cymru bob blwyddyn. Bydd aelodau o staff yr Is-adran Addysg Uwch yn cynorthwyo Archwilio Cymru drwy sicrhau y caiff yr holl fodelau ac allbynnau StEP a ddefnyddir i lywio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru eu rhoi i Archwilio Cymru, a byddant yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith modelu ar gais er mwyn helpu i gwblhau'r archwiliad yn llwyddiannus.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad C**

Tabl yn nodi'r swm a dalwyd am dir ac adeiladau, a'r swm y cawsant eu gwerthu amdano wedi hynny, yn dilyn y cyhoeddiad na fyddai cynllun coridor yr M4 yn mynd yn ei flaen. Mae'r pris prynu hefyd yn dangos y pris malltod a'r gwir brisiad.

| Rhif | Disgrifiad o'r Tir | Cod post | Dyddiad Prynu | Gwerth a Dalwyd (Tir ac Adeiladau) | Cyfanswm Iawndal (heb gynnwys ffioedd asiant) | Ffioedd asiant (gan gynnwys TAW) | Pris Gwerthu | *Dyddiad Gwerthu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Longhouse Farm, Coedcernyw | NP10 8UD | Tach-06 | £720,000 | | | Dd/G | Dd/G |
| 2 | Undy House, Gwndy, Magwyr | NP26 3BX | Awst-07 | £660,000 | | | Dd/G | Dd/G |
| 3 | Woodland House, Magwyr | NP26 3BZ | Awst-07 | £1,107,000 | | | Dd/G | Dd/G |
| 4 | Old Cottage, Knollbury, Magwyr | NP26 3BX | Maw-95 | £130,000 | | | Dd/G | Dd/G |
| 5 | Horseshoe Cottage, Knollbury, Magwyr | NP26 3BX | Awst-98 | £132,500 | | | Dd/G | Dd/G |
| 6 | Barecroft House, Comin Barecroft, Magwyr | NP26 3EB | Mai-96 | £158,500 | | | Dd/G | Dd/G |
| 7 | Cae-Glas, Nash Road, Casnewydd | NP18 2BS | Rhag-06 | 300000 (gan gynnwys yr isod) | | | Dd/G | Dd/G |
| 7 | Rhandy, Cae Glas, Nash Road, Casnewydd | NP18 2BS | Rhag-06 | Rhan o'r uchod | | | Dd/G | Dd/G |
| 8 | Greenfield House, Nash Road, | NP18 2BS | Maw-07 | £300,000 | | | Dd/G | Dd/G |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Casnewydd | | | | | | | |
| 9 | The Conifers, Coedcernyw | NP10 8UD | Ebr-15 | £725,000 | £800,452 | £6,118 | Dd/G | Dd/G |
| 10 | White Cottage, Coedcernyw | NP10 8UF | Rhag-15 | £555,000 | £645,950 | £22,008 | Dd/G | Dd/G |
| 11 | San Remo, Coedcernyw | NP10 8UF | Ebr-16 | £350,000 | £396,062 | £5,520 | Dd/G | Dd/G |
| 12 | The Glen, Coedcernyw | NP10 8UF | Hyd-15 | £430,000 | £504,796 | £14,425 | Dd/G | Dd/G |
| 13 | Spring Cottage, Coedcernyw | NP10 8UF | Meh-16 | £355,000 | £391,514 | £7,137 | Dd/G | Dd/G |
| 14 | Quarry Cottage, Coedcernyw | NP10 8UF | Meh-17 | £453,000 | £491,906 | £9,840 | Dd/G | Dd/G |
| 15 | Danygraig, Coedcernyw | NP10 8UF | Awst-18 | £495,000 | £495,000 | £4,981 | Dd/G | Dd/G |
| 16 | Dunline, Knollbury | NP26 3BX | Maw-17 | £365,000 | £415,608 | £4,592 | Dd/G | Dd/G |
| 17 | Coedkernew House, Coedcernyw | NP10 8TX | Ebr-19 | £575,000 | £606,510 | £14,310 | Dd/G | Dd/G |

| **Rhif** | **Disgrifiad o'r Tir** | **Cod post** | **Dyddiad Prynu** | **Gwerth a Dalwyd (Tir ac Adeiladau)** | **Cyfanswm lawndal (heb gynnwys ffioedd asiant)** | **Ffioedd asiant (gan gynnwys TAW)** | **Pris Gwerthu** | ***Dyddiad Gwerthu** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | The Croft, Coedcernyw | NP10 8UF | Ebr-19 | £400,000 | £457,571 | £4,592 | Dd/G | Dd/G |
| 19 | Little Orchard, Coedcernyw | NP10 8UF | Rhag-18 | £400,000 | £400,000 | £4,071 | Dd/G | Dd/G |
| 20 | Old Court Farm, Rogiet | NP26 3UR | Maw-18 | £2,354,617 | £2,513,708 | £7,260 | Dd/G | Dd/G |
| 21 | Court Farm, Rogiet | NP26 3UR | Mai-18 | £1,714,085 | £1,872,140 | £7,380 | Dd/G | Dd/G |
| 22 | Moorland View, Coedcernyw | NP10 8TX | Medi-16 | £540,000 | | | Dd/G | Dd/G |
| 23 | Lower Lakes Farm, Casnewydd | NP18 2BS | Ion-95 | £170,000 | | | £135,000 | Ion-97 |
| 24 | Pye Corner House, Trefonnen | NP18 2BW | Ebr-96 | £120,000 | | | £178,000 | Ion-02 |
| 25 | Ysgubor Newydd, Coedcernyw | NP18 1QR | Medi-96 | £220,000 | | | £361,000 | Maw-04 |
| 26 | Moorbarn, Trefonnen | NP18 2AZ | Rhag-96 | £192,500 | | | £167,000 | Gor-97 |
| 27 | The Maerdy, Coedcernyw | NP10 8TU | Ebr-03 | £680,000 | | | £605,000 | Tach-11 |
| 28 | Rose Cottage, Knollbury | NP7 9SE | Mai-10 | £360,000 | | | £244,735 | Gor-11 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | The Stud Farm, Coedcernyw | NP10 8TU | Ion-00 | £315,000 (yn rhan o rif 2) | | | £450,000 | Maw 2004 – *Gyda rhywfaint o dir yn cael ei gadw ar gyfer cynigion yr M4 (rhif 2).* |

Ystyriaethau:

1 – Mae'r dadansoddiadau o bryniannau cyn 2015 ar ffurf copïau papur yn ein storfa ffeiliau – oherwydd COVID-19, ni allwn drefnu i'r rhain gael eu hanfon er mwyn cadarnhau'r dadansoddiad o iawndal. Felly, dim ond gwerth yr eiddo/tir sydd wedi cael ei gynnwys, ac nid costau eraill.

2 – Rhif 7 – un eiddo yw hwn i bob pwrpas, ond mae'r tŷ a'r rhandy ar osod gennym i ddau berson gwahanol ar hyn o bryd.

3 – Prisiadau – Nid yw'r eiddo wedi cael eu prisio i'w hailwerthu gan Lywodraeth Cymru am nad ydynt wedi cael eu datgan yn eiddo dros ben eto.

4 – Mae'r eiddo a werthwyd wedi'u hamlygu'n wyrdd.

5 – Rwyf wedi cynnwys dyddiadau prynu a gwerthu er mwyn ichi allu deall amodau'r farchnad ar y pryd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Yn rhinwedd paragraff(au) vi, vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon